

Gwaith y Pwyllgor Llenyddiaeth

1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a gofynnir i'r Ysgrifennydd fynychu yn ei h/absenoldeb. Yn ogystal â hyn, bydd y 2 swyddog yn dod yn aelod o'r Panel Canolog Llenyddiaeth dros gyfnod yr Eisteddfod.

2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

3. Dewis Testunau

Adran Llenyddiaeth yn rhannu'n ddwy adran yn naturiol sef barddoniaeth a rhyddiaith, gyda **hyd at 12** ym mhob adran ac Ysgoloriaeth Emyr Feddyg yn ychwanegol.

Canllawiau dewis testunau:

Yn y tabl sydd wedi'w greu ar gyfer dewis testunau yr adran, a gwelir fod nodiadau syml wedi'w nodi ar gyfer y cystadlaethau gwahanol, gydag esiampl o'r dewis mwyaf diweddaraf mewn rhai achosion. Gweler isod nodiadau pellach ar gyfer rhai o'r testunau:

Adran Barddoniaeth:

Y Gadair a'r Goron- *Bydd y Pwyllgor lleol yn gyfrifol am osod, os mynnant, destunau neu themâu ar gyfer y ddwy gystadleuaeth. O ran geiriad y cystadlaethau:*

A. Ar gyfer y Gadair gellid dewis un o'r canlynol:

1. *Awdl ar fwy nag un o'r mesurau traddodiadol, heb fod dros 200 llinell.*
2. *Cerdd mewn cynghanedd gyflawn, heb fod dros 200 llinell.*
3. *Casgliad o gerddi mewn cynghanedd gyflawn, heb fod dros 250 llinell.*
4. *Dilyniant o gerddi mewn cynghanedd gyflawn, heb fod dros 250 llinell.*

Byddai 2 - 4 yn sicrhau y gellid derbyn yng nghystadleuaeth y Gadair gerdd neu gerddi cynganeddol yn y mesurau traddodiadol, mewn mesurau newydd neu'r vers libre, cyhyd ag y bont mewn cynghanedd gyflawn.

B. Ar gyfer y Goron gellid dewis un o'r canlynol:

1. *Pryddest ddigynganedd, heb fod dros 200 llinell.*
2. *Cerdd ddigynganedd, heb fod dros 200 llinell.*
3. *Casgliad o gerddi digynganedd, heb fod dros 250 llinell.*
4. *Dilyniant o gerddi digynganedd, heb fod dros 250 llinell.*

Byddai dewis unrhyw un o'r rhain yn sicrhau na ellid derbyn cerdd neu gerddi cynganeddol yng nghystadleuaeth y Goron. Fodd bynnag, ychwanegwyd cymal at yr amodau arbennig i ymdrin â'r posibilrwydd o gynnwys ambell linell ynganeddol ddamweiniol neu anfwriadol.

Mae'r dewisiadau i'r cystadlaethau eraill yn weddol benagored ac wedi cynnwys yn y gorffennol: **soned, tribannau, pennill telyn, vers libre, cerdd neu gerddi cynganeddol, cerdd ddychan, hir a thoddaid, cân ysgafn, carol, emyn, cerdd ddefosiynol, cerdd ar fesur filanel, limrigau, trosi a rap.**

Adran Rhyddiaith:

Y Fedal Ryddiaith 2021 – cyfrol fel arfer a dim mwy na 40,000 o eiriau. Angen dewis thema.

Gwobr Goffa Daniel Owen 2021 – Nofel heb ei chyhoeddi heb fod yn llai na 50,000 o eiriau

Gwobr Stori Fer Tony Bianchi – gosod teitl a dim mwy na 3,000 o eiriau.

Y Wladfa – Mae cystadleuaeth i'r rhai sydd yn byw yn Y Wladfa yn un o gystadlaethau'r adran ryddiaith ac fel arfer ceir cynnig testun a beirniad gan Gymdeithas Cymru-Ariannin

Eto mae'r gweddill yn benagored ac wedi cynnwys yn y gorffennol: **llên micro, stori ffantasi, ysgrif, mynegai, pennod gyntaf., erthygl, darnau mewn dull penodol, colofn newyddion, monolog, llythyr doniol/dychanol, casgliad o ddywediadau, cardiau adnabod, sloganau, dyddiadur, blog.**

4. Dewis Beirniaid

Angen meddwl am restr ddigon hir er mwyn cael digon o enwau wrth gefn. Defnyddir un beirniad i bob cystadleuaeth, ar wahân i'r pedair prif gystadleuaeth pan fo angen panel o dri - a rhaid i o leiaf un o'r beirniaid yng nghystadlaethau sy'n ymwneud â seremonïau'r Orsedd fod yn aelod o'r Orsedd.

Wrth gynnig beirniaid a wnewch chi plis sicrhau eich bod yn manylu ar bwy y union yw'r personau (i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth).

Mae angen cofio bod hi'n ofynnol i'r beirniaid draddodi mewn rhai achosion, ac felly rhaid cael digon o rai â medr wneud hynny yn y Gymraeg heb dynnu sylw atynt eu hunain. Eto peidio bod yn rhy lleol neu'n fympwyl a chadw oddi wrth rhai sydd wedi gwneud yn ddiweddar e.e. yn y ddwy flynedd cyn yr Eisteddfod, ac efallai y dylid cael cydbwysedd rhwng y de a'r gogledd ac os yn bosib rhwng merched a dynion. Ar ddiwedd y dydd yr hyn sydd ei angen arnom yw'r beirniaid gorau. (Gweler y ddogfen 'Beirniaid Diweddar')

Rhaid peidio bod yn rhy leol neu blwyfol wrth ddewis testunau, beirniaid a telynorion - mae angen digon o amrywiaeth. Mae'n bosib rhoi rhai testunau sydd gyda blas lleol neu gysylltiadau lleol o ran beirdd, gosodwyr, enwogion neu leoedd, ond mae angen cadw mewn cof mai Eisteddfod Genedlaethol yw hon sy'n ymweld â'r ardal leol. Mae angen darnau sy'n apelio at gystadlewyr, hyfforddwyr a hefyd cynulleidfia eang. Mae'r dewis o ddarnau yn hollbwysig er mwyn sicrhau denu'r cystadlewyr pybyr yn ogystal â rhai newydd – cofiwch ei bod hi'n haws annog rhai i gystadlu gyda darnau apelgar da.

Bydd angen gofalu nad yw barn unigolyn/ion yn llywio barn y pwyllgor - mae wedi digwydd sawl tro yn y gorffennol! Mae angen meddwl am yr hen a'r newydd o ran y geiriau yn ogystal â'r ceinciau. Hefyd dylid meddwl a chadw mewn cof hyd pob darn prawf, gan y bydd rhain angen cael eu hamseru cyn creu amserlen rhagbrofion a chystadlaethau'r Pafiliwn.

COFIWCH NA FYDDWN YN CYSYLLTU Â'R BEIRNIAID HYD NES Y BYDD Y PWYLLGOR DIWYLLIANNOL WEDI DERBYN Y TESTUNAU – YN AMLWG FELLY MAE POB ELFEN O'R GWAITH TESTUNAU YN GWBL GYFRINACHOL.

Y gwaith uchod i'w wneud yn ystod y cyfarfod cyntaf fel bo'r testunau yn cael eu paratoi i'w cyflwyno i'r Panel Canolog mewn cyfarfod ar y cyd **Sad 25 o Ionawr 2020**. Rhaid gwneud unrhyw newidiadau ar y diwrnod hwnnw fel bod modd eu cyflwyno yn derfynol i Bwyllgor Diwylliannol yr Eisteddfod ym Mis Mawrth 2020. Bydd gan y swyddfa lawer o waith wedyn i gael popeth yn barod ar gyfer eu hargraffu erbyn diwrnod Cyhoeddi'r Eisteddfod.

5. Gwobrau

Bydd angen i'r pwyllgor annog pobl i roi gwobrau. Rhaid cyfeirio pob cais am wobwr i'r Pennaeth Gweithredu Cymunedol, Alwyn Roberts (Gweler y gwybodaeth cyswllt isod) â maint y wobwr a gynhigir. Bydd Swyddfa'r Eisteddfod wedyn yn cysylltu â'r person dan sylw i drafod y mater. Cofiwch fod pob gwerth ariannol unrhyw wobwr yn gallu cael ei glustnodi yn erbyn targed ardal arbennig os yw'r rhoddwr yn dymuno.

6. Amseru darnau prawf

Fel y cyfeiriwyd ato, bydd angen **amseru pob darn prawf** er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol i gynhyrchu'r rhaglen llwyfan - fel rheol gofynnir yn garedig i Gadeirydd (gyda help y swyddogion/pwyllgor) wneud hyn erbyn **diwedd Ebrill** cyn yr Eisteddfod ei hun.

7. Swyddogaethau adeg yr ŵyl

Un o'r prif ofynion yn ystod yr wythnos fydd gwirfoddoli i redeg y rhagbrofion / a stiwardio'r adeiladau. Byddwn yn gofyn i **un swyddog o'ch pwyllgor** i ymuno â'r is-bwyllgor Gwirfoddoli a fydd yn cyfarfod yn y misoedd yn arwain at yr Eisteddfod. Bydd y cynrychiolydd yn dod nôl at y pwyllgor i helpu ar y gwaith o ganfod pŵl o

wirfoddolwyr ar gyfer eu hamserlennu (Ysgrifennydd Rhagbrawf, Arweinydd Llwyfan y Rhagbrofion a Stiwardiaid – bydd dogfennau yn nodi rôl pob un ar gael yn y man).

8. Babel Lân a Llên ar y Maes

Unwaith i'r testunau gael eu derbyn yn swyddogol, bydd angen dechrau meddwl am syniadau ar gyfer gweithgareddau/sesiynau llenyddol y Babel Lân a thu hwnt fel bo' rhyw ysgerbwd o raglen yn barod erbyn cyfarfod o'r Panel Llên Ganolog yn Ionawr 2021. Bydd y Trefnydd a Phennaeth Artistig yn arwain ar y trafodaethau hyn, ac yn gwahodd a chytundebu'r cyfranwyr wrth roi trefn ar y rhaglen. Pwysig cofio mai Eisteddfod Genedlaethol yw hon, ac felly, er bod lle i ddathlu dawn a chynnyrch lleol, bod beirdd, awduron, gweisg ayb cenedlaethol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Pwysig hefyd nodi bod angen cydbwysedd o'r dwys i'r ysgafn, lleol a chenedlaethol, merched a dynion, sesiynau hygyrch a chynhwysol, gan sicrhau fod na le amlwg ar gyfer sesiynau 'sgwennu newydd, ynghyd a sesiynau sydd yn adlewyrchu cyhoeddiadau cyfredol wrth greu'r rhaglen. Mae nifer o bartneriaid blynyddol yn rhan o'r trefniant ers llawer o flynyddoedd, ac mae hyn yn parhau i ddatblygu, ac mae angen cofio bod yr elfen hon yn hollbwysig hefyd. Bydd aelodau o wahanol sefydliadau a'r panel canolog llên yn cael eu gwahodd i'r pwyllgor lleol er mwyn bod yn rhan o'r trafodaethau a chynorthwyo wrth drafod syniadau.

Yn ddiweddar mae'r Eisteddfod wedi ail-siapio a gwella dyluniad gweledol y Babel Lân a'r gweithgareddau llên y tu hwnt i'r llwyfan hwn. Y bwriad yw creu arlwy llên fywiog yn llawn gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n hoff o lenyddiaeth o bob oed. Mae'r Eisteddfod yn grediniol bod angen strategaeth ar y cyd ar gyfer y rhaglennu, h.y. un rhaglen ar gyfer y Llenyddiaeth, a hynny mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol yn cynnwys Cwllwm Cyhoeddwy, Barddas, Llên Cymru, Prifysgolion, Gweisg Cymru ayb, heb anghofio cyfraniad pwysig y pwyllgor llenyddiaeth leol.

Er mwyn ffynnu, mae hi'n bwysig bod rhaglennu'r arlwy llên yn digwydd drwy bartneriaeth, gan ddathlu themâu llenyddol lleol a chenedlaethol mewn rhaglen uchelgeisiol, cyffrous a chynhwysol. Nid yw hyn yn ymwneud â dyheadau unigol unrhyw gwmni neu unigolyn, ac felly drwy drafodaeth cyson wrth rannu gweledigaeth y daw y llwyddiant. Mae'r Eisteddfod yn parhau i ddatblygu dyluniad gweledol y pentref llên er mwyn creu ardal sy'n groesawgar a difyr i'w hymwelwyr.

Gofynnir i'r pwyllgor ddechrau drwy restru lluo o syniadau, ac yna eu categorio ar gyfer themâu penodol, gan fynd ati i flaenoriaethu'r hoff rai. Rôl y Trefnydd a Phennaeth Artistig fydd creu'r amserlen, cysylltu efo'r cyfranwyr a chytundebu.

Gwnaiff y Trefnydd a'r Pennaeth Artistig egluro'r drefn a rhoi arweiniad wrth i'r syniadau a'r rhaglen ddatblygu.

Gellid hefyd gynnig syniadau ar gyfer y Llwyfan Llannerch (llwyfan bach tu allan), ond pwysig cofio bod hwn hefyd yn cynnig sesiynau o gerddoriaeth a chomedi, ac yn cael ei raglennu gyda phartneriaid amrywiol. Bydd rhaid sicrhau fod yr amserlenni yn eu lle erbyn diwedd Mawrth 2021.

9. Swyddogaethau eraill

Gall y pwyllgor hefyd drafod ffyrdd o waddol – o ran y rhwydweithiau a digwyddiadau cymunedol posib mwyn parhau i ymgysylltu i'r dyfodol.

Elen Huws Elis - Trefnydd a Phennaeth Artistig: elen@eisteddfod.org.uk (cystadlaethau ac arlwy ar y Maes)

Lois Jones – Swyddog Cystadlaethau: lois@eisteddfod.org.uk (cystadlaethau)

Alwyn Roberts - Pennaeth Gweithredu Cymunedol: alwyn@eisteddfod.org.uk (gwobrau)

Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15 Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 1XP / 0845 409 0400

Sioned Edwards – Dirprwy Pennaeth Artistig: sioned@eisteddfod.org.uk (arlwy ar y maes)

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Ty Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU / 0845 409 0300